


Dinbych-y-pysgod/Waterwynch

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 2.3 milltir (3.7 km) 1 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Gwasanaeth bws Dinbych-y-pysgod 349/359/350/351/352/353/360/361/381/333/390, Gorsaf Rheilffordd

CYMERIAD: Rhwydd i gymedrol ond yn serth mewn rhai manau, llwybrau ceffyl, llwybrau beic, caeau a da byw, lonydd tawel, gall fod yn wlyb a mwdlyd mewn manau,

RHYBUDD 0.2 milltir (0.3 km) prif ffordd, 0.1 milltir (0.15 km) isffordd, peth cerdded trefol


CHWILIWCH AM: Golygfeydd o Fae Caerfyrddin, Traeth y Gogledd a phlatai trefol hardd, Traeth Waterwynch

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffordd o ymlon y dogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntag a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus (tymhorol)
- Bus Safle Bws
- Rheilffordd Gorsaf Rheilffordd



Dinbych-y-pysgod/Waterwynch

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 2.3 milltir, 3.7 km

Cyrraedd yno: Trafnidiaeth gyhoeddus - Bws gwasanaeth Dinbych y Pysgod, Gorsaf Rheilffordd. Cludiant personol - De Sir Benfro; cychwyn y daith o dre Dinbych y Pysgod. Dod ar hyd ffyrdd yr A478 neu A4139.

Taith gyda man cychwyn bendigedig, Traeth y Gogledd. Cyn cychwyn edrychwch ar ehanglych y traethau a'r creigiau, y mwyaf ohonynt fel petai yn cysgu, sef, Craig Goskar.

Nid yw'n cymryd amser hir cyn gadael maestrefi Dinbych y Pysgod a bod allan yng nghefn gwlad, gan ddringo gan bwyll i dir uchel Cornish Down.

I gael seibiant, stopiwch ac edrych nôl ar Ddinbych y Pysgod ac ehangder llydan Bae Caerfyrddin. Roedd anheddiad yma gyda'i gastell ei hun ymhell cyn i'r Normaniaid gyrraedd. Mae enw Cymraeg y dref, Dinbych y Pysgod, yn golygu "the little fort of the fishes" a sonnir amdano gyntaf mewn cerdd o'r 9fed ganrif

Mae adfeilion yr amddiffynfa ar Fryn y Castell, uwchben Traeth y Gogledd, yn dyddio o'r 12fed ganrif tra bod waliau'r dref wedi'u hadeiladu ganrif yn ddiweddarach.

Erbyn y 16eg ganrif roedd Dinbych y Pysgod yn borthladd pwysig, ond yn sgil y Rhyfel Cartref a phla yn y 1650au gwelwyd cyfnod hir o ddirywiad. Daeth hynny i ben pan ail anwyd y porthladd fel cyrchfan gwyliau.

Mae'r daith yn archwilio cefn gwlad tonnog sy'n cyrraedd mor bell â'r man lle mae'r rheilffordd yn rhedeg trwy

ddyffryn coediog Knightson Brook. Cyrhaeddodd Rheilffordd De Cymru i Sir Benfro yn yr 1850au. Agorwyd cangen I Ddoc Penfro yn 1866, gan roi'r cyfle i rai ar eu gwyliau i deithio i Ddinbych y Pysgod ar y trên.

Roedd dyfodiad y rheilffordd yn hwb i uchelgais y dref i fod yn gyrcfan gwyliau. Dechreuwyd y broses yn 1810 gan Syr William Paxton, ac amcan ei raglen adeiladu ef oedd troi Dinbych y Pysgod yn gyrcfan gwyliau ffasiynol.

Ychydig oddi ar y daith, mae Traeth Waterwynch yn gildraeth bychan o dywod a cherigos wedi'i amgylchynu gan glogwyni isel. Mae'r arfordir rhwng Waterwynch a Dinbych y Pysgod yn fan nythu i adar y môr, yn cynnwys gwylan y graig.

